

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Llanarth Court

Partnerships in Care Ltd

Dyddiad arolygu:

6 - 9 Ionawr 2020

Dyddiad cyhoeddi: 14 Ebrill 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	19
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	32
4.	Beth nesaf?	35
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	36
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	37
	Atodiad B – Cynllun gwella	38

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd annibynnol o wasanaeth iechyd meddwl yn Ysbyty Llanarth Court ar noson 6 Ionawr 2020, a'r diwrnodau canlynol, sef 7, 8 a 9 Ionawr 2020. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Awen - Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Canolig i Fenywod
- Deri - Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Isel i Ddynion
- Teilo - Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Isel i Ddynion
- Treowen - Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Isel i Ddynion
- Howell - Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Canolig i Ddynion
- Iddon - Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Canolig i Ddynion
- Byngalo Woodlands - Ward Adsefydlu Iechyd Meddwl Agored i Ddynion.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd o AGIC, tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygwr enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth ar gyfer cleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000, gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Mae AGIC hefyd yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom dîm ymroddedig o staff a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom fod y staff yn dangos parch wrth ryngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Roedd y staff yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweinyddiaeth roeddent yn eu cael.

Roedd y cleifion yn gallu cael gafael ar weithgareddau addysg, seicoleg, therapi galwedigaethol a chymunedol.

Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau ac mae angen ailaddurno ac adnewyddu rhannau o'r ysbyty.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn dangos parch wrth ryngweithio ac ymgysylltu â'r cleifion
- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Roedd amrywiaeth dda o therapïau a gweithgareddau yn cael ei darparu i'r cleifion
- Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth wedi'u cwblhau yn unol â Mesur y Gymraeg
- Trefniadau llywodraethu sefydledig a oedd yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rheoli meddyginiaethau mewn ffordd ddiogel ac effeithiol
- Glendid rhai rhannau o'r ysbyty, a'u hailaddurno.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn, yr oedd angen cymryd camau i'w hunioni ar unwaith.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Llanarth Court wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl annibynnol yn Llanarth, Rhaglan, y Fenni, Sir Fynwy NP15 2YD.

Mae'r ysbyty yn cynnwys saith ward a byngalo adsefydlu agored:

- Awen – Gwasanaeth diogelwch canolig ar gyfer hyd at 16 (un ar bymtheg) o oedolion benywaidd rhwng 18 (deunaw) a 65 (pump a thrigain) oed sydd wedi cael diagnosis o salwch meddwl neu sydd ag anhwylder personoliaeth y gellir ei drin neu gyfuniad o'r ddau.
- Deri – Gwasanaeth diogelwch isel i ddarparu asesiadau ar gyfer hyd at 11 (un ar ddeg) o oedolion gwrywaidd dros 18 (deunaw) oed
- Osbern – Gwasanaeth diogelwch isel i ddarparu asesiadau, triniaeth a gwasanaeth adsefydlu ar gyfer hyd at 11 (un ar ddeg) o oedolion gwrywaidd dros 18 (deunaw) oed sydd ag anhwylder meddwl
- Teilo – Gwasanaeth diogelwch isel i ddarparu gwasanaeth adsefydlu ar gyfer hyd at 20 (ugain) o oedolion gwrywaidd dros 18 (deunaw) oed y mae angen gwasanaeth adsefydlu arnynt i drin eu hanhwylder meddwl.
- Treowen – Gwasanaeth diogelwch isel i ddarparu gwasanaeth adsefydlu ar gyfer hyd at 19 (pedwar ar bymtheg) o oedolion benywaidd dros 18 (deunaw) oed y mae angen gwasanaeth adsefydlu arnynt i drin eu hanhwylder meddwl
- Howell – Gwasanaeth diogelwch canolig i ddarparu asesiadau, triniaeth a gwasanaeth adsefydlu byrdymor ar gyfer hyd at 17 (dau ar bymtheg) o oedolion gwrywaidd dros 18 (deunaw) oed sydd ag anhwylder meddwl
- Iddon – Gwasanaeth diogelwch canolig i ddarparu asesiadau a gwasanaeth adsefydlu byrdymor ar gyfer hyd at 17 (dau ar bymtheg) o oedolion gwrywaidd dros 18 (deunaw) oed sydd ag anhwylder meddwl
- Byngalo Woodlands – Gwasanaeth agored i ddarparu gwasanaeth adsefydlu ar gyfer hyd at 4 (pedwar) oedolyn gwrywaidd dros 18 (deunaw) oed sydd ag anhwylder meddwl.

Cafodd yr ysbyty ei gofrestru gyntaf ym mis Rhagfyr 1992. Ar adeg yr arolygiad, roedd Osbern ar gau ar gyfer gwaith adnewyddu ac nid oedd yn rhan o'r arolygiad hwn.

Mae'r ysbyty'n cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys Cyfarwyddwr yr Ysbyty, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Clinigol a Chyfarwyddwr Meddygol, ynghyd â thimau amlddisgyblaethol sy'n gweithio ar y wardiau gan gynnwys rheolwr y ward, prif nyrsys, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymorth therapi. Roedd timau'r wardiau'n cael eu cefnogi gan seicolegwyr, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion chwaraeon, tiwtor oedolion a chlinigwyr cyfrifol yr ysbyty.

Mae'r ysbyty'n cyflogi Rheolwr Cymorth Gwasanaeth a thîm o weithwyr cynnal a chadw, staff arlwyo a staff domestig. Cynorthwyr gweithrediad yr ysbyty gan dîm o staff gweinyddol.

Cefnogir yr ysbyty gan strwythurau rheoli a threfniadol The Priory Group.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, a gwelsom y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus ac yn cael gofal da yn yr ysbyty.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau a therapiâu addas ar gael ym mhob rhan o'r ysbyty, ac yn y gymuned, er mwyn helpu i adsefydlu'r cleifion.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o wybodaeth a mentrau ym maes hybu, diogelu a gwella iechyd ar gael i'r cleifion yn Llanarth Court a oedd yn helpu i gynnal a gwella eu llesiant.

Ceir ffocws clir ar ofal iechyd corfforol yn Llanarth Court. Mae nyrs arweiniol gofal iechyd corfforol, a benodwyd yn ddiweddar ac a gefnogir gan Gynorthwydd Gofal Iechyd amser llawn, yn cydgysylltu'n agos â staff y ward, gwasanaeth meddygon teulu newydd a sawl gwasanaeth arbenigol fel gwasanaethau diabetes, deietegwyr, podiatreg, optegwyr, deintyddion a nyrsys ardal lleol lle y bo'n briodol. Ers arolygiad diwethaf AGIC, mae proses fwy systematig ar gyfer asesu, monitro ac archwilio gofal iechyd corfforol y cleifion wedi cael ei datblygu ac mae nifer o fentrau fel clinig brysbennu (gweld y cleifion er mwyn blaenoriaethu apwyntiadau meddygon teulu), clinigau i ddynion ac i fenywod, clinigau sgrinio'r fron a chlinigau clefyd y galon a chlefydau cronig bellach yn rhan annatod o'r broses rheoli iechyd. Caiff gwelliannau mewn gofal iechyd corfforol eu hybu, er enghraifft drwy weithio gyda'r deietegydd i gael cyngor ar fwyta'n iach. Gwelsom hefyd fod gan y Cynorthwydd Gofal Iechyd ddiddordeb brwd mewn ymarfer corff a'i fod yn gweithio gyda'r therapydd chwaraeon er mwyn annog y cleifion i gymryd rhan mewn rhaglenni ymarfer corff fel grwpiau cerdded a beicio. Roedd canlyniadau iechyd yn cael eu harchwilio'n rheolaidd ac roedd gwelliannau'n cael eu nodi. Hefyd, dywedodd cyfarwyddwr yr ysbyty wrthym am gynlluniau i wasanaethau meddygol fod ar gael 24 awr y dydd yn yr ysbyty yn y dyfodol, a fydd yn helpu'r staff i ddarparu gofal cyson i'r cleifion.

Roedd gan Ysbyty Llanarth Court amrywiaeth eang o gyfleusterau, a oedd mewn cyflwr da, er mwyn helpu i ddarparu therapïau a gweithgareddau. Roedd gan bob ward therapydd galwedigaethol a gweithiwr cymorth therapi dynodedig amser llawn.

Roedd pob claf a gâi ei dderbyn i'r ysbyty yn cael ei asesu gan therapydd galwedigaethol. Yn dilyn yr asesiad, roedd y cleifion yn cael amserlen unigol a oedd yn cynnwys gweithgareddau therapiwtig amrywiol yn ogystal â gweithgareddau ar y ward. Roedd amserlenni gweithgareddau unigol y cleifion yn gysylltiedig ag amserlenni cyfleusterau'r ysbyty ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu ac yna eu newid bob 12 wythnos.

Gwelsom fod y cleifion ar y wardiau'n cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol yr arolygiad. Ymhlith y gweithgareddau hyn roedd celf a chreffft, gemau bwrdd, gemau cyfrifiadur, darllen llyfrau a phapurau newydd, gwneud modelau, chwarae cardiau a gwyllo'r teledu.

Hefyd, gallai cleifion â chaniatâd i fod yn absennol o dan adran 17¹ fynd am dro o gwmpas tir helaeth yr ysbyty, ac roedd nifer o'r cleifion yn pysgota'n rheolaidd yn y llyn sydd ar dir yr ysbyty.

Roedd yr ardal weithgareddau, sef y Bloc Stabl, yn cynnwys digon o adnoddau yn ogystal â champfa a oedd ar agor bob dydd. Hefyd yn yr ardal hon roedd pwll nofio a neuadd chwaraeon fawr ar gyfer gweithgareddau fel pêl-droed pump bob ochr, pêl fased a badminton. Siom oedd gweld nad oedd buddsoddiad wedi'i wneud yn y pwll nofio, nad oedd yn cael ei ddefnyddio mwyach. Dywedodd rhai o'r cleifion eu bod yn gweld eisiau'r pwll nofio, a oedd wedi cael effaith ar eu gwellhad therapiwtig yn yr ysbyty. Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried buddsoddi yn y pwll nofio er mwyn gwella profiad y cleifion a'u gwellhad yn yr ysbyty.

Gwelsom fod rhywfaint o waith paentio heb ei orffen yn y neuadd chwaraeon a bod angen ailblastro ac addurno rhai o'r waliau y tu allan i'r neuadd chwaraeon. Rhoddodd cyfarwyddwr yr ysbyty sicrwydd i ni y byddai'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau'n amserol.

¹ Mae absenoldeb o dan Adran 17 yn caniatáu i glaf sy'n cael ei gadw adael yr ysbyty

Roedd y gampfa awyr agored ar iard Treowen yn edrych yn dda ac roedd yn helpu i wneud i'r iard edrych yn fwy atyniadol a chroesawgar, yn ogystal â chynnig lle i'r cleifion wneud ymarfer corff yn yr awyr agored.

Hefyd, roedd campfa ar ward Awen a oedd yn cynnig lle i'r cleifion benywaidd wneud ymarfer corff i ffwrdd oddi wrth y cleifion gwrywaidd yn yr ysbyty petaent yn dymuno gwneud hynny.

Yn y Bloc Stabl, roedd ystafell celf a chreffft a oedd yn cael ei defnyddio gan y tîm therapi galwedigaethol a chanolfan addysgol a oedd yn cael ei hwyluso gan diwtor amser llawn. Roedd y tiwtor a'r rheolwr therapi galwedigaethol yn arwain rhaglen y 'Coleg Gwellhad' lle roedd y cleifion yn dysgu amrywiaeth eang o sgiliau fel sgiliau cyfrifiadur, rhifedd ac iaith. Roedd y Coleg Gwellhad yn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i'r cleifion drwy Rwydwaith y Coleg Agored².

Roedd y Coleg Gwellhad yn rhan integredig o ofal y cleifion a byddai'r gweithgareddau a'r cyfleoedd a gynigir yn fuddiol i'r cleifion wrth iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Roedd rhaglen y Coleg Gwellhad yn meithrin sgiliau cyflogaeth, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer cyfweiliadau a sut i redeg busnes bach gyda'r cyfle i weithio yn y caffi ar y safle. Byddai'n ofynnol i'r cleifion gwblhau cyrsiau er mwyn meddu ar y sgiliau i weithio yn y caffi, a oedd yn cynnwys sgiliau rhifedd a chymhwyster hylendid bwyd lefel 2. Ymhlith y cyrsiau eraill roedd rhai ar ddeall diogelwch ar y rhyngwyd a chreu cyfrifon siopa ar-lein, ynghyd â chysiau i'r cleifion ar ddeall budd-daliadau, sgiliau cyllidebu a chyngor ar ddyledion.

Fel rhan o'r adolygiad parhaus o ddarpariaeth addysg yn yr ysbyty, roedd holiadur diddordebau'n gofyn i'r cleifion pa addysg a sgiliau yr hoffent gymryd rhan ynddynt. Byddai'r tiwtor a'r therapydd galwedigaethol yn ystyried barn y cleifion ac yn ymchwilio i ffyrdd o ddarparu'r cyrsiau hyn naill ai ar y safle neu yn y gymuned. Roedd hyn yn gwneud yn siŵr bod yr holl gleifion yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau roeddent yn eu mwynhau ac roedd ganddynt ddiddordeb ynddynt. Yn ystod ein cyfweiliadau â'r tîm therapi galwedigaethol, gwnaethant ddangos yn glir fod ganddynt lefel uchel o ymrwymiad i'r cleifion, ac

² Mae Rhwydwaith y Coleg Agored yn cydnabod y dysgu ffurfiol a gyflawnir gan oedolion i ddatblygu a dyfarnu cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol.

roedd yn amlwg eu bod yn meddwl yn ofalus ac yn buddsoddi llawer wrth gynllunio'r gweithgareddau er mwyn diwallu anghenion y cleifion.

Roedd hefyd yn braf gweld aelodau o'r staff ar y wardiau yn annog y cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Gwelsom lawer o enghreifftiau o'r cleifion a'r staff yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gydol yr arolygiad. Hefyd, roedd y nodiadau cleifion a welsom yn dangos bod y cleifion yn defnyddio'r neuadd chwaraeon a'r campfeydd yn rheolaidd.

Roedd ceginau therapi galwedigaethol ar wardiau Awen, Teilo a Threowen ac roedd dwy gegin therapi galwedigaethol yn y Bloc Stabl ar gyfer wardiau Howell, Iddon, Osbern a Deri. Roedd digon o adnoddau yn y ceginau therapi galwedigaethol i'r cleifion gymryd rhan mewn sesiynau coginio.

Hefyd, ymhlith y cyfleusterau a oedd ar gael y tu allan i'r wardiau roedd Canolfan Garddwriaeth a Chreffft a oedd yn hwyluso amrywiaeth o weithdai ar gyfer y cleifion, er enghraifft gwaith coed, a mynediad at dai gwydr a gerddi mawr ar gyfer gweithgareddau garddwriaethol. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod angen gosod tap allanol yn yr ardal arddwriaeth.

Roedd y cleifion a oedd yn gweithio yn y gweithdai wedi adeiladu siop goffi fawr yn yr ardal hon i'r cleifion ei defnyddio. Roedd hwn yn gyfleuster ardderchog a ddatblygwyd gan y cleifion ac roedd yn helpu i greu ymdeimlad gwirioneddol o gymuned yn yr ysbyty. Hefyd, roedd cynlluniau ar waith i'r cleifion agor siop elusen yn yr ysbyty a gweithio ynddi, gyda chymorth y tîm therapi galwedigaethol. Roedd gan yr ysbyty hefyd glwb cymdeithasol, a oedd wedi'i addurno'n ddymunol ac yn cynnwys jiwcbocs, byrddau tennis bwrdd a phŵl, bwrdd darts, hoci aer a thafunydd i ddangos ffilmiau. Roedd hefyd yn cynnwys llyfrgell a siop i'r cleifion a oedd yn cael eu rhedeg gan y cleifion, gyda chymorth y tîm therapi galwedigaethol, fel rhan o gyfleoedd gwaith yr ysbyty.

Er bod llawer o dystiolaeth o gyfleusterau a gweithgareddau, dywedodd rhai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw bod gweithgareddau'n cael eu canslo os nad oes digon o'r staff ar gael. Dylai'r darparwr cofrestredig wneud yn siŵr bod y lefelau staffio'n hyblyg i allu ymdopi â newidiadau mewn amgylchiadau er mwyn sicrhau na chaiff gweithgareddau eu canslo.

Roedd gan bob un o'r saith ward ei gerbyd dynodedig ei hun er mwyn i'r cleifion allu mynd allan i'r gymuned pan roddir caniatâd iddynt wneud hynny. Un diwrnod yr wythnos, byddai un o gerbydau'r wardiau'n cael ei glustnodi'n gerbyd brys ar gyfer yr ysbyty rhag ofn y byddai angen i glaf adael yr ysbyty'n ddirybudd, e.e. i fynd i apwyntiad meddygol brys. Ar ddiwrnod pan nad oedd gan ward ei cherbyd, byddai staff y ward yn hwyluso grŵp trafndiaeth gyhoeddus er mwyn i'r cleifion allu manteisio ar y cyfle hwn fel rhan o'u proses adsefydlu.

Roedd mynediad i'r rhyngrwyd ar gael i'r cleifion ond, am fod yr ysbyty mewn lleoliad gwledig, roedd y cysylltiad â'r rhyngrwyd yn ysbeidiol ac yn methu o bryd i'w gilydd. Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried opsiynau er mwyn sicrhau y gall y cleifion gael mynediad dibynadwy i'r rhyngrwyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig osod tap allanol i'r cleifion ei ddefnyddio yn yr ardal arddwriaeth.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig wneud yn siŵr na chaiff gweithgareddau'r cleifion eu canslo oherwydd prinder staff.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan bob ward fynediad dibynadwy i'r rhyngrwyd.

Urddas a pharch

Nodwyd bod pob cyflogai, staff y ward, yr uwch-reolwyr a'r staff gweinyddol yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom y staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon roedd y cleifion yn eu codi. Roedd hyn yn dangos bod gan y staff agweddau ymatebol a gofalgar tuag at y cleifion.

Roedd hefyd yn galonogol nodi bod y staff wedi dogfennu a deall dewisiadau cleifion unigol o ran ymyriadau ar gyfer rheoli eu hymddygiadau heriol. Yn ystod ein sgysiau â'r cleifion a'r staff, rhoddwyd gwybod i ni fod y dewisiadau lefel uwch hyn yn cael eu parchu, lle bo modd, a oedd yn helpu i gynnal urddas a llesiant y cleifion yn ystod sefyllfaoedd anodd.

Ym mhob rhan o'r ysbyty, roedd tystiolaeth glir o arferion staff a pholisïau a oedd yn dilyn yr Arferion Gofal Lleiaf Cyfyngol. Roedd hyn yn helpu i gynnal urddas y cleifion a gwella'r gofal unigol yn Llanarth Court. Roedd yr ysbyty a'r wardiau'n cynnal cyfarfodydd arferion lleiaf cyfyngol rheolaidd a oedd yn rhoi cyfle i adolygu a thrafod arferion a fyddai'n lleihau'r cyfyngiadau ar y cleifion yn Llanarth Court yn seiliedig ar waith ymchwil a risgiau.

Roedd Datganiad o Ddiben y darparwr cofrestredig hefyd yn disgrifio sut y byddai staff yr ysbyty yn helpu'r cleifion mewn ffyrdd a fyddai'n cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun. Roedd y cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely eu hunain, y gallai'r staff eu datgloi os oedd angen. Roedd

gan y cleifion ar wardiau Awen, Teilo a Threowen ystafelloedd gwely â chyfleusterau en-suite yn cynnwys toiled, sinc a chawod. Roedd gan y cleifion ar wardiau Iddon, Howell a Deri ystafelloedd gwely â sinc ond roeddent yn rhannu toiledau a chawodydd. Gwelsom fod staeniau dŵr ar y tu mewn i'r toiledau mewn ystafelloedd gwag ar wardiau Teilo ac Awen. Tynnwyd sylw'r staff at hyn, a gwnaethant ein sicrhau y byddai'r problemau hyn yn cael eu datrys.

Fel y nodwyd yn dilyn ein harolygiad blaenorol, er bod y diffyg cyfleusterau en-suite ar bedair o'r wardiau yn golygu bod gan y cleifion lai o breifatrwydd, mae strwythur y wardiau'n golygu ei bod yn anodd eu hadnewyddu ac ychwanegu cyfleusterau en-suite. Pleser oedd gweld bod cynlluniau gwella hirdymor ar waith ar gyfer datblygu gwasanaethau yn Llanarth Court er mwyn cael gwared ar yr amrywiad o ran cyfleusterau ar y wardiau gwahanol. Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig roi gwybod i AGIC am y datblygiadau er mwyn sicrhau y bydd pob un o'r wardiau'n parhau i adlewyrchu safonau priodol o ddarpariaeth i gleifion mewnol.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun y gallai fynd iddi drwy gydol y dydd. Roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig safon dda o breifatrwydd ac urddas i'r cleifion. Roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig digon o le storio ac roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafell gyda lluniau a phosteri.

Roedd digon o le i'r cleifion storio eu heiddo personol yn eu hystafelloedd a oedd yn cynnwys cwpwrdd y gellid ei gloi a sêff. Roedd unrhyw eitemau oedd yn cael eu hystyried yn beryglus i gleifion, fel raseli, caniau erosol ac ati yn cael eu storio'n ddiogel ac yn drefnus ar bob ward a gallai'r cleifion ofyn amdanynt yn ôl yr angen.

Roedd paneli arsylwi yn nrysau'r ystafelloedd gwely fel y gallai'r staff arsylwi ar y cleifion heb agor y drws ac amharu arnynt o bosibl. Roedd hi'n gadarnhaol nodi bod y paneli arsylwi ar gau a'u bod yn cael eu hagor er mwyn arsylwi cyn eu cau drachefn. Roedd hyn yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. Hefyd, roedd y darparwr cofrestredig wedi gosod llenni dros y paneli arsylwi er mwyn atal unrhyw olau rhag tarfu ar gwsg y cleifion.

Roedd gan bob ward ystafelloedd addas i'r cleifion gyfarfod â pherthnasau, staff y ward a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn breifat. Hefyd, roedd ystafell ymweld i blant ar gael, mewn ardal nad oedd ar ward, er mwyn i'r cleifion allu cyfarfod ag aelodau iau o'u teuluoedd. Lle na allai cleifion adael y ward, roedd y staff yn gallu trefnu i'r cleifion siarad â pherthnasau ifanc drwy Skype. Roedd y cyfleuster hwn hefyd ar gael i berthnasau a ffrindiau eraill nad oeddent yn gallu dod i'r ysbyty. Dywedodd rhai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw y gellid

ailaddurno'r ystafell ymweld i blant er mwyn ei gwneud yn fwy croesawgar i blant sy'n ymweld.

Roedd trefniadau addas ar waith ym mhob un o'r wardiau i alluogi'r cleifion i wneud a derbyn galwadau ffôn yn breifat. Yn dibynnu ar asesiad risg unigol, gallai'r cleifion ddefnyddio eu ffonau symudol. Roedd y cleifion yn llofnodi contract ffôn symudol gyda'r darparwr cofrestredig i gytuno ar delerau defnyddio gan gadarnhau na fyddent yn camddefnyddio'r ffôn symudol a chaniatáu i'r staff fonitro cynnwys y ffonau a'u defnydd ohonynt.

Ar wahân i Woodlands, roedd bob gan bob ward yn Llanarth Court Uned Gofal Dwys, ac roedd gan Awen ddwy. Gallai'r staff fonitro'r ardaloedd hyn gan ddefnyddio system teledu cylch cyfyng, a allai effeithio ar breifatrwydd ac urddas y cleifion yn yr ardaloedd hyn o bosibl. Fodd bynnag, drwy gael sgysrsiau â'r staff ac ar ôl bwrw golwg dros y cynlluniau gofal, cawsom ein sicrhau bod y staff yn defnyddio'r system teledu cylch cyfyng yn yr Unedau Gofal Dwys mewn ffordd briodol gan gynnal urddas y cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y staeniau dŵr eu glanhau'n llwyr yn yr ystafelloedd gwely gwag ar wardiau Awen a Theilo.

Dylid ailaddurno'r ystafell ymweld i blant er mwyn ei gwneud yn fwy croesawgar i blant sy'n ymweld.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd gan yr ysbyty ddatganiad ysgrifenedig o ddiben a chanllaw gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael i'r cleifion a'u perthnasau/gofalwyr.

Ar y wardiau, gwelsom bosteri eiriolaeth a oedd yn darparu manylion cyswllt ar gyfer cael gafael ar y gwasanaeth. Roedd gwybodaeth am eiriolaeth a thystysgrifau cofrestru gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru hefyd yn cael eu harddangos. Roedd gwybodaeth am y broses gwyno a sut i wneud cwyn hefyd yn cael ei harddangos. Fodd bynnag, roedd y cyfeiriad e-bost ar gyfer AGIC ar y posteri yn anghywir. Rhaid i'r darparwr cofrestredig wneud yn siŵr bod manylion cywir AGIC ar y posteri.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y wybodaeth a gaiff ei harddangos am AGIC yn gywir.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn gwneud yn siŵr eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i bob claf. Lle roedd y cleifion yn cael anhawster o hyd i ddeall rhywbeth, neu lle roedd yr hyn roedd claf yn ceisio ei gyfleu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn ceisio gofyn yn amyneddgar am eglurhad o'r hyn yr oedd wedi'i ddweud.

Yn aml, gwelsom y cleifion yn mynd at amrywiaeth o staff o'r tîm amlddisgyblaethol, ac roedd yn ganmoladwy gweld y staff yn treulio amser yn siarad â'r cleifion hyd yn oed os oeddent yn delio ag ymrwymïadau eraill ar y pryd. Hefyd, gwelwyd cyfarwyddwr yr ysbyty yn siarad â'r cleifion, a oedd yn ymateb yn dda iddo, sy'n dangos bod cyfarwyddwr yr ysbyty wedi treulio amser yn dod i adnabod y cleifion yn unigol. Roedd yn amlwg bod cyfarwyddwr yr ysbyty yn wyneb cyfarwydd a chyfeillgar i'r cleifion.

Gwelsom gyfarfodydd staff yn cael eu cynnal a dangosodd y staff lefel dda o ddealltwriaeth o'r cleifion roeddent yn gofalu amdanynt. Dywedodd pob claf y gwnaethom siarad ag ef ei fod yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu siarad ag aelod o staff os oedd angen. Roedd parch amlwg a chydberthnasau sicr cryf rhwng y staff a'r cleifion.

Roedd nifer o gyfarfodydd a oedd yn cynnwys y cleifion a'r staff, gan gynnwys cyfarfodydd cynllunio gofal unigol a chyfarfodydd cymunedol grŵp. Gwelsom amrywiaeth o gofnodion o gyfarfodydd yn ystod ein harolygiad a oedd yn dangos bod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ymhlith y timau.

Dyweddodd y staff a'r cleifion wrthym am y cyngor cleifion, sef menter gadarnhaol i roi llwyfan i ddefnyddwyr y gwasanaeth drafod unrhyw faterion neu welliannau roeddent am eu gwneud yn yr ysbyty. Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd cleifion rheolaidd ac roedd yn braf clywed y staff a'r cleifion yn siarad am y cyngor cleifion mewn ffordd gadarnhaol. Yn ogystal, roedd cynrychiolydd cleifion hefyd yn bresennol mewn cyfarfodydd llywodraethu. Roedd hyn yn dangos bod strwythur llywodraethu'r ysbyty yn broses gynhwysol a moesegol.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Gyda chytundeb y cleifion, lle bynnag y bo modd, roedd eu teuluoedd a'u gofalfwyr hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd. Gwnaethom siarad ag un perthynas a gadarnhaodd fod y cyfathrebu a'r cyfranogiad rhwng yr ysbyty ac aelodau o deuluoedd y cleifion yn dda.

Cynllunio a darparu gofal

O safbwynt cynllunio gofal ac arferion yn yr ysbyty, roedd pwyslais clir ar adsefydlu gyda gofal wedi'i addasu i gleifion unigol a'i gefnogi gan yr arferion lleiaf cyfyngol.

Roedd gan bob claf ei gynllunydd gweithgareddau wythnosol ei hun, a oedd yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, a gynhelir yn yr ysbyty ac yn y gymuned (pan oedd ei angen, roedd awdurdodiad wedi cael ei roi).

Fel y nodir uchod, roedd y gweithgareddau'n amrywiol ac yn canolbwyntio ar adfer, naill ai yn yr ysbyty neu yn y gymuned. Roedd cyfranogiad cleifion unigol mewn gweithgareddau yn cael ei fonitro a'i archwilio. Os oedd cleifion yn gwrthod cymryd rhan, gwelsom y staff yn cynnig dewisiadau amgen; roedd hyn yn cael ei gofnodi yng nghofnod y claf. Roedd cyfranogiad mewn gweithgareddau yn cael ei archwilio'n rheolaidd a byddai'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gynllunio gweithgareddau ar gyfer pob chwarter.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd ymarfer y staff, a oedd yn gyson â pholisïau a systemau sefydledig yr ysbyty, yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal. Roedd y papurau cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi cael eu cwblhau'n gywir er mwyn cadw cleifion yn yr ysbyty ac roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn deall y rheswm dros eu cadw ac roedd ganddynt rywfaint o ddealltwriaeth o'u hawliau yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd cyfarfodydd cleifion ac arolygon yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd i berthnasau a gofalwyr am sut i roi adborth. Gwelsom dystiolaeth o arolygon cleifion diweddar a chynlluniau gweithredu a oedd yn dangos sut roedd yr ysbyty yn gwneud gwelliannau a newidiadau yn seiliedig ar ganlyniad yr arolwg cleifion.

Roedd polisi cwynion a gweithdrefn gwyno ar waith. Roedd y polisi yn cynnig strwythur ar gyfer ymdrin â phob cwyn yn yr ysbyty. Roedd yn amlwg bod person annibynnol wedi'i bennu i ymchwilio i gwynion a bod camau yn cael eu cymryd yn unol â pholisi cwynion y darparwr cofrestredig er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn briodol.

Roedd cwynion yn cael eu categorio'n rhai anffurfiol a ffurfiol. Roedd cwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi ar bob ward mewn dogfen bapur, gyda chwynion ffurfiol yn cael eu cofnodi ar gofnodlyfr cwynion cyfrifiadurol i'r ysbyty cyfan.

Drwy fwrw golwg dros sampl o gwynion anffurfiol a ffurfiol, gwelsom fod person annibynnol yn gyfrifol am ymchwilio i'r gŵyn a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd yn unol â pholisi cwynion y sefydliad er mwyn sicrhau bod yr ysbyty'n ymdrin â chwynion yn briodol.

Roedd cwynion hefyd yn cael eu cofnodi yng nghofnodion unigol y cleifion, ynghyd â'u canlyniadau. Roedd y broses gwyno a chamau gweithredu cysylltiedig yn cael eu goruchwyllo gan gyfarwyddwr yr ysbyty.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn cynnwys dodrefn, gosodiadau a ffitiadau addas ar gyfer y grŵp cleifion; fodd bynnag, roedd angen ailaddurno ac adnewyddu rhai ardaloedd.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risg, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd nifer yr achosion o atal yn gorfforol wedi lleihau'n sylweddol ers ein harolygiad blaenorol.

Fodd bynnag, roedd angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd prosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau, a chynnal iechyd a diogelwch yn ysbyty Llanarth Court. O safbwynt cynllunio gofal ac ymarfer yn y wardiau a'r ysbyty, roedd yr ysbyty yn darparu gofal wedi'i addasu i gleifion unigol a'i gefnogi gan yr arferion lleiaf cyfyngol.

Roedd gweithdrefnau diogelwch ar waith ar bob ward er mwyn lleihau'r risg y gallai rhywrai ddod ag eitemau dan gyfyngiadau i mewn i'r wardiau. Roedd nyrs ddiogelwch wedi'i neilltuo i bob sifft ar bob ward a oedd yn gyfrifol am gynnal y protocolau diogelwch ar bob ward.

Roedd rhestr o eitemau gwaharddedig yn cael ei harddangos ym mynedfeydd y wardiau ac roedd loceri â chloeon arnynt er mwyn storio unrhyw eitemau nad oeddent yn cael eu caniatáu ar y wardiau, er enghraifft ffonau symudol, tanwyr sigaréts, hylifau fflamadwy ac ati.

Roedd manau galw am nyrs hefyd o amgylch y wardiau ac yn ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn i'r cleifion alw am gymorth os oedd angen. Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth os oedd ei angen. Roedd system ar waith i ddyrannu larymau i'r staff ac ymwelwyr pan fyddant yn mynd ar y wardiau.

Roedd system gyfrifiadurol ddiogel ar waith ar gyfer rheoli a dyrannu allweddi'r wardiau a'r ysbyty i'r staff. Sicrhâi hyn mai dim ond allweddi i'r rhannau o'r ward a'r ysbyty roedd ganddynt awdurdod i fynd iddynt a oedd yn cael eu dyrannu i'r staff. Byddai'r staff yn nôl yr allweddi o gwpwrdd â chlo arno ar bob ward. Roedd angen i'r aelod o staff sganio ei gerdyn adnabod a rhoi ei Rif Adnabod Personol unigryw i mewn. Nid oedd y staff yn gallu gadael ward heb ddychwelyd yr allweddi i'r cwpwrdd â chlo arno, a oedd yn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o risg y gallai aelodau o'r staff fynd ag allweddi'r ysbyty oddi ar y ward.

Roedd dodrefn, gosodiadau a ffitiadau'r ysbyty yn briodol i'r grŵp cleifion. Roedd asesiadau risg diweddar ar gael mewn perthynas â phwyntiau clymu. Roedd y rhain yn nodi pwyntiau clymu posibl a pha gamau oedd wedi cael eu cymryd i ddileu neu reoli'r rhain. Roedd archwiliadau wythnosol yn cael eu cynnal ar yr offer dadebru, ac roedd y staff wedi cofnodi pryd y digwyddodd y rhain er mwyn sicrhau bod yr offer yn bresennol ac o fewn y dyddiad.

Roedd y staff yn gallu rhoi gwybod am broblemau amgylcheddol i dîm ystadau'r ysbyty a oedd yn cynnal cofnod o broblemau a'r gwaith yr oedd ei angen a'r gwaith a gwblhawyd. Hefyd, roedd aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli yn mynd o gwmpas yr ysbyty bob wythnos i fwrw golwg dros yr amgylchedd a siarad â'r staff a'r cleifion.

Cawsom wybod bod tîm ystadau'r ysbyty yn ymatebol ac yn cyfeirio at gontractwyr yn brydlon yn ôl yr angen. Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y tîm ystadau yn ymateb i waith cynnal a chadw ac yn ymgymryd â'r gwaith hwnnw er mwyn unioni problemau amgylcheddol.

Roedd system electronig sefydledig ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Cofnodwyd digwyddiadau ar y system a oedd yn cynnwys enw'r claf neu'r cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd unrhyw ddefnydd o ddulliau atal corfforol yn cael ei ddogfennu, gan gynnwys pwy oedd dan sylw ac osgo corff pob person dan sylw. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu cysylltu'n awtomatig â nodiadau gofal electronig y claf unigol a oedd yn sicrhau bod y rhain yn gyfredol.

Roedd hierarchaeth ar waith o ran ymdrin â digwyddiadau a oedd yn sicrhau bod adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu hadolygu'n amserol gan aelod o'r tîm clinigol sydd ynghlwm wrth ofal y claf unigol a chyflogai sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn yr ysbyty.

Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi. Gellid llunio adroddiadau ychwanegol i edrych ar feysydd penodol yn ôl yr angen. Roedd y system a'r amserlenni ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn

sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi, eu hadolygu a'u monitro er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel yn Llanarth Court. Roedd yn galonogol gweld bod prinder staff ac absenoldebau o'r gwaith hefyd yn rhan o'r broses rhoi gwybod am ddigwyddiadau, a oedd yn cael ei hadolygu a'i thrafod gan y tîm amlddisgyblaethol.

Fel rhan o strategaeth yr ysbyty ar gyfer rheoli ymddygiad heriol, roedd un Uned Gofal Dwys ar bob un o'r wardiau, heb gynnwys Woodlands, ac roedd dwy ardal o'r fath ar ward Awen, sef yr unig ward i fenywod. Roedd gan gyfleusterau'r Unedau Gofal Dwys doiled a chawodydd hunangynhwysol priodol. Gwelsom rywfaint o sbwriel yn ardal awyr agored yr Uned Gofal Dwys ar ward Awen, ac roedd arogl cryf o wrin yn ystafell 1 yr Uned. Raid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff unrhyw sbwriel ei godi a bod yr ardal hon yn cael ei glanhau'n drylwyr er mwyn cael gwared ar yr arogl wrin.

Gwelsom hefyd dystiolaeth yn nodiadau'r cleifion, a thrwy siarad â'r staff a'r cleifion, y gallai claf sy'n dymuno defnyddio Uned Gofal Dwys i reoli ei ymddygiadau ei hun ofyn i staff y ward am gael gwneud hynny. Arfer ychwanegol gan yr ysbyty oedd hyn, a oedd yn dangos bod y cleifion yn cael eu cynnwys yn y broses o reoli eu gofal eu hunain a bod yr ysbyty'n gallu gweithredu er mwyn helpu'r cleifion i reoli eu llesiant ac atal eu hiechyd rhag dirywio'n ddiangen.

Roedd yr ysbyty wedi rhoi cynllun parhad busnes ar waith a oedd yn cynnwys ymatebion y gwasanaeth i bethau fel tywydd garw, methiannau cyfleustodau ac achosion o glefydau heintus.

Gwelsom fod nifer o beiriannau glanweithydd dwylo yn wag ar rai o'r wardiau a bod un uned dosbarthu sebon yn yr ystafell ymolchi gymunedol ar ward Iddon wedi torri. Gwnaethom hefyd nodi bod un o'r drychau yn yr ystafell ymolchi gymunedol ar y ward hon wedi cracio. Rhaid i'r darparwr cofrestredig wneud yn siŵr bod y peiriannau glanweithydd dwylo'n cael eu hail-lenwi, ac thrwsio'r uned dosbarthu sebon a'r drych sydd wedi cracio ar ward Iddon oherwydd gallai hyn beri risg i ddiogelwch y cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Raid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff sbwriel ei godi yn yr Uned Gofal Dwys ar ward Awen a bod yr ardal hon yn cael ei glanhau'n drylwyr er mwyn cael gwared ar yr arogl wrin.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod peiriannau glanweithydd dwylo ar gael i'r cleifion ac ymwelwyr eu defnyddio.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff peiriant glanweithydd dwylo newydd ei osod yn yr ystafell ymolchi gymunedol ar ward Iddon.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff drych newydd ei osod yn lle'r un sydd wedi cracio ar ward Iddon.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd staff cadw tŷ dynodedig wedi'u cyflogi yn y gwasanaeth. Roedd holl ardaloedd cymunedol yr ysbyty yn lân ac yn daclus yr olwg. Roedd mynediad at gyfleusterau golchi a sychu dwylo ym mhob rhan o'r ysbyty. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol ar gael i'r staff yn ôl y gofyn.

Roedd system gynhwysfawr o archwiliadau rheolaidd ar waith o ran rheoli heintiau. Roedd archwiliadau dyddiol yn cael eu cwblhau a'u ffeilio'n briodol. Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty a'u bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau.

Roedd yr offer glanhau wedi'u storio a'u trefnu'n briodol. Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gael yn yr ysbyty fel bod y cleifion yn gallu golchi eu dillad eu hunain gyda'r lefel briodol o gymorth gan y staff yn seiliedig ar anghenion unigol. Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff clinigol. Roedd biniau priodol ar gael i waredu eitemau miniog meddygol ac nid oedd y rhain wedi'u gorlenwi.

Ar nifer o'r wardiau, roedd ôl tâp gludiog lle roedd eitemau wedi cael eu gosod ar ddrysau a ffenestri. Yn anffodus, golygai hyn fod y wardiau'n edrych yn flêr ac ychydig yn anniben mewn manau.

Gwnaethom hefyd nodi rhai diffygion yn yr ardal gweini bwyd yn yr ystafell fwyta ar ward Awen, lle roedd rhwd wedi ffurfio. Gallai hyn beri risg o haint ac mae angen eu hatgyweirio. Fodd bynnag, roedd buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud ers ein harolygiad diwethaf; roedd lloriau a dodrefn newydd wedi cael eu gosod, a oedd yn helpu i wneud yr ysbyty'n amgylchedd llai clinigol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad oes ôl tâp gludiog ar y wardiau.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y diffygion yn yr ardal gweini bwyd yn ystafell fwyta ward Awen yn cael eu hatgyweirio.

Maeth

Nodwyd gennym fod y cleifion yn cael dewis o brydau bwyd ar fwydlen pedair wythnos. Gwelsom fod y fwydlen yn amrywiol a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn gallu dewis eu bwyd. Roedd y bwydlenni hefyd yn amrywio yn ôl y tymhorau drwy gydol y flwyddyn. Roedd yn galonogol nodi bod y cleifion a'r staff yn bwyta prydau bwyd gyda'i gilydd, a oedd yn cynnig profiad cymunedol adeiladol.

Yn ogystal â'r prydau bwyd a oedd yn cael eu darparu, roedd y cleifion yn gallu defnyddio'r gegin therapi galwedigaethol i baratoi eu prydau eu hunain ac archebu bwyd parod i'w ddsbarthu i'r ysbyty.

Dywedodd y staff wrthym fod darpariaeth ar gyfer cleifion â deiet penodol/arbennig, gan gynnwys figan, anoddefiad glwten a gofynion crefyddol. Roedd cod lliw ar ddewisiadau'r fwydlen er mwyn helpu'r cleifion i nodi opsiynau iach. Roedd y pen-cogydd yn cyfarfod â'r cleifion ag anghenion deietegol penodol i drafod pa opsiynau addas a oedd ar gael.

Roedd adborth y cleifion ar y prydau bwyd a'r opsiynau ar y fwydlen yn cael ei goladu mewn cyfarfodydd arlwyyo misol â'r cleifion ac roedd hyn yn helpu i adolygu a llunio'r opsiynau ar y fwydlen. Dywedodd rhai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw nad oedd y prydau bwyd yn dda, ond dywedodd eraill eu bod yn fodlon ar y dewisiadau sydd ar y fwydlen. Dylai'r darparwr cofrestredig holi'r cleifion ymhellach am hyn er mwyn deall y problemau sydd gan y cleifion o ran y dewisiadau prydau bwyd, a sicrhau bod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu.

Roedd ffrwythau ffres ar gael ar bob ward a gallai'r cleifion brynu byrbrydau o siop yr ysbyty neu yn y gymuned, neu fynd i gaffi'r ysbyty.

Ar bob ward, roedd peiriannau diodydd poeth ac oer y gallai'r cleifion eu defnyddio i wneud eu diodydd eu hunain. Roedd y cleifion yn defnyddio'r cyfleusterau hyn yn rheolaidd.

Rheoli meddyginiaethau

Ar y cyfan, nodwyd bod y feddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Roedd pob un o'r ystafelloedd clinig yn cael eu cloi er mwyn atal mynediad anawdurdodedig, yn yr un modd â chypyrddau meddyginiaeth. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi ar ddrôr heb ei gloi yn llawn analgesia ar ward Awen. Roedd yr oergelloedd meddyginiaeth yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio, ac eithrio wardiau Iddon ac Awen lle y gwelsom fod yr oergell heb ei chloi pan aethom yno un tro. Roedd tymereddau'r oergelloedd meddyginiaeth a'r ystafelloedd clinig yn

cael eu monitro a'u cofnodi, er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd cywir.

Hefyd, roedd y trolïau meddyginiaeth yn cael eu rhoi'n sownd yn wal yr ystafell clinig, er mwyn atal rhywun heb awdurdod rhag eu symud.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar y ward ar gyfer storio a defnyddio Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau a all Gael eu Camddefnyddio. Roedd y cofnodion a welwyd yn dangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal ddwywaith y dydd a'u bod wedi'u hardystio â'r llofnodion priodol gan nyrsys. Roedd mewnbwn rheolaidd gan y fferyllfa ac roedd archwiliadau yn cael eu cynnal a oedd yn helpu i reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth. Gwelsom nifer o rowndiau meddyginiaeth yn cael eu cynnal, ac roedd y staff yn eu cynnal yn briodol ac yn broffesiynol, gan ryngweithio â'r cleifion mewn ffordd barchus ac ystyrlon.

Gwelsom nad oedd y dyddiadau pigiadau depo a oedd wedi'u cofnodi ar fwrdd gwyn yn ardal y clinig ar ward Awen yn gyfredol. Dywedodd y nyrs â chyfrifoldeb mai hen broses oedd hon sydd bellach yn cael ei rheoli gan ddefnyddio dyddiadur y ward. Felly, dylid dileu'r wybodaeth hon oddi ar y bwrdd gwyn er mwyn osgoi dryswch ac unrhyw gamgymeriadau mewn perthynas â meddyginiaeth depo. Hefyd, gwelsom rwymynnau o dan y sinc yn y clinig ar ward Awen a oedd wedi darfod ac wedi'u baeddu am fod y sinc yn gollwng. Roedd golwg y rhwymynnau a'r dŵr a oedd yn gollwng yn awgrymu bod y broblem hon yn bodoli ers cryn amser heb i neb sylwi arni. Rhaid i'r darparwr cofrestredig wneud yn siŵr y caiff yr holl offer meddygol eu harchwilio. Mewn argyfwng, gallai hyn olygu nad oes modd cael gafael ar y rhwymynnau sydd eu hangen.

Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (Siartiau MAR)³ a welwyd gennym wedi'u cwblhau'n llawn gan y staff. Roedd hyn yn cynnwys yr holl fanylion am y claf ar y dudalen flaen a thudalennau dilynol, ei statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a sicrhau bod yr holl ffurflenni cydsynio i driniaeth yn bresennol gyda'r siartiau.

³ Defnyddir Cofnod Rhoi Meddyginiaeth fel cofnod cyfreithiol o'r cyffuriau a roddir i glaf gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn rhan o gofnod parhaol claf ar ei siart feddygol.

Roedd y siartiau meddyginiaeth a welwyd yn dangos bod amrywiaeth o feddyginiaeth yn cael ei rhagnodi'n seiliedig ar anghenion unigol. Roedd y siartiau meddyginiaeth wedi'u teipio, a oedd yn helpu i ddangos yn glir pa feddyginiaeth yn union oedd wedi cael ei rhoi. Wrth archwilio ffeil feddyginiaeth un claf, gwelsom ei bod yn cynnwys hen siartiau o ysbyty blaenorol. Er bod y siartiau wedi'u croesi allan, dylai'r ysbyty dynnu'r siartiau hyn allan o'r ffeil feddyginiaeth gyfredol er mwyn osgoi unrhyw ddryswch posibl ymhlith y staff.

Gwnaethom ddarllen cofnodion cyfarfodydd llywodraethu. Mewn un set o gofnodion, roedd cyfeiriad at nifer o wallau mewn perthynas â meddyginiaeth ond dim ond gwybodaeth gyfyngedig oedd ar gael i ddangos pa ymchwiliadau oedd wedi'u cynnal a pha drefniadau dysgu a goruchwylio ychwanegol oedd wedi'u gwneud i atal gwallau tebyg rhag digwydd yn y dyfodol. Gwnaethom dynnu sylw'r cyfarwyddwr clinigol at hyn ar unwaith a gwnaethom ofyn am dystiolaeth ac esboniad ynghylch y diffygion hyn a nodwyd. Cyflwynodd y cyfarwyddwr clinigol ragor o dystiolaeth a oedd yn dangos bod camau gweithredu priodol wedi cael eu cymryd a bod gwersi priodol wedi cael eu dysgu. Hefyd, cadarnhaodd y staff y siaradwyd â nhw eu bod wedi cael adborth ar wallau meddyginiaeth a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus bod ymchwiliadau teg yn cael eu cynnal i wallau mewn perthynas â meddyginiaeth. Gwnaethom hefyd ganfod achosion lle na allai cleifion gael gafael ar feddyginiaeth oherwydd gwallau mewn perthynas â chyflenwi a danfon. Mae angen i'r darparwr cofrestredig a'r fferyllfa ddatblygu system fwy cadarn ar gyfer rheoli meddyginiaeth nad yw mewn stoc a meddyginiaeth frys.

Roedd gwybodaeth am y fferyllfa'n cael ei harddangos ar bob ward er mwyn cyflwyno'r tîm. Roedd yn galonogol gweld bod tîm y fferyllfa ar gael i'r cleifion gwrdd â nhw a thrafod unrhyw wybodaeth am feddyginiaeth â nhw.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y wybodaeth am ddyddiadau pigiadau depo ei dileu oddi ar y bwrdd gwyn ar ward Awen.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y rhwymynnau a ddifrodwyd gan ddŵr eu symud oddi ar y ward ac y caiff rhwymynnau newydd eu rhoi yn eu lle.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl hen gofnodion meddygol o ysbytai blaenorol eu tynnu allan o'r ffeiliau meddyginiaeth.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff oergelloedd a droriau â meddyginiaeth ynddynt eu cloi.

Mae angen i'r ysbyty drefnu system fwy cadarn gyda'r fferyllfa ar gyfer archebu a danfon meddyginiaeth frys.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty'n diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn. Yn ystod ein harolygiad, codwyd mater yn ymwneud â diogelu yn ystod cyfarfod aml-ddisgyblaethol. Yn ystod y drafodaeth hon, dangosodd y tîm wybodaeth am yr hyn a oedd yn cyfrif fel atgyfeiriad diogelu, a hynny mewn ffordd glir.

Roedd yn amlwg hefyd fod y tîm rheoli yn gweithio'n galed i feithrin a chynnal cydberthynas waith dda â phartneriaid amlasiantaethol. Mae'r dull cydweithredol hwn yn allweddol er mwyn sicrhau prosesau diogelu effeithiol ac roedd yn dangos bod yr ysbyty yn rhoi pwyslais cryf ar ddiogelu eu cleifion. Y tîm o weithwyr cymdeithasol oedd yn arwain ar brosesau diogelu, trefniadau ymweld/cyswllt â phlant a chynllunio gofal.

Dangosodd y pennaeth diogelu lawer o wybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â phob agwedd ar ddiogelu. Roedd yn galonogol clywed am y dull cydweithredol lle roedd gweithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant yn mynd ar leoliad yn yr ysbyty o'r awdurdod lleol, a staff o'r ysbyty yn mynd ar gyrsiau hyfforddi a drefnir gan yr awdurdod lleol. Roedd hyn yn amlwg yn helpu i adeiladu ar y cysylltiadau rhwng y staff yn yr ysbyty a phartneriaid amlasiantaethol ehangach.

Gallai plant ymweld â'r ysbyty drwy fynd i ystafell ddynodedig oddi ar y wardiau. Lle na allai cleifion adael y ward, gallai'r staff hwyluso cyfarfodydd drwy ddefnyddio Skype. Roedd y staff a oedd yn hwyluso/goruchwylio ymweliadau gan blant wedi cwblhau hyfforddiant penodol ar ymweliadau gan blant er mwyn sicrhau lles y plant dan sylw.

Roedd y tîm o weithwyr cymdeithasol yn awyddus i roi cymorth a chefnogaeth ychwanegol i bob aelod o staff yr ysbyty a gwnaeth y staff y siaradwyd â nhw rannu enghreifftiau o drafodaethau dyddiol lle roedd dysgu anffurfiol yn digwydd gyda'r staff wrth drafod atgyfeiriadau diogelu posibl.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd archwiliadau wythnosol yn cael eu cynnal ar yr offer dadebru, ac roedd y staff yn cofnodi pryd y digwyddodd y rhain er mwyn sicrhau bod yr offer yn bresennol ac o fewn y dyddiad.

Roedd nifer o dorwyr clymau ar gael ym mhob uned i'w defnyddio mewn argyfwng. Yn ystod trafodaethau â'r staff, roedd yn amlwg bod pob un ohonynt yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymau. Roedd archwiliadau diogelwch cyfredol ar waith, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion.

Roedd trefniadau llywodraethu clinigol yr ysbyty yn bwydo i mewn i drefniadau llywodraethu canolog The Priory Group a oedd yn hwyluso proses ddwyffordd o fonitro a dysgu.

Nodwyd bod strategaethau ar waith ar gyfer rheoli ymddygiad heriol er mwyn hybu diogelwch a llesiant y cleifion. Soniwyd bod technegau ataliol yn cael eu defnyddio ac y byddai'r staff, lle y bo angen, yn arsylwi ar gleifion yn amlach os oedd eu hymddygiad yn peri pryder. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod cleifion yn cael eu hatal yn gorfforol ond dim ond pan fetho popeth arall. Roedd podiau diogelwch⁴ ar gael y gallai'r staff eu defnyddio er mwyn eu cynorthwyo i ymyrryd yn gorfforol i atal y cleifion yn gorfforol. Dywedwyd wrthym fod nifer yr achosion o atal yn gorfforol wedi lleihau ers i'r podiau diogelwch gael eu cyflwyno.

Roedd ystadegau a welsom yn ategu hyn, gan fod y podiau atal yn lleihau'r angen am achosion o atal unigolyn ar y llawr ac anafiadau corfforol. Mae cyfanswm yr achosion o atal yn gorfforol wedi mwy na haneru ers mis Ionawr 2019, sy'n welliant sylweddol ers ein harolygiad diwethaf. Yn ogystal â'r podiau atal, roedd yr ysbyty wedi penodi arweinydd Atal a Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol dynodedig sy'n arwain drwy esiampl drwy fod yn bresennol mewn achosion o atal

⁴ Nod y Pod Diogelwch yw gwella diogelwch ymyriadau corfforol. Darn o ddodrefn mawr, meddal a chefnogol yw hwn fel arfer sy'n debyg i "fag ffa" y gellir ei ddefnyddio er mwyn gosod claf arno i gefnogi ymyriadau corfforol.

yn gorfforol a drefnwyd er mwyn arwain a chefnogi'r staff. Mae'r hyfforddwr Atal a Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol hefyd yn cynnal sesiynau galw heibio ar gyfer y staff er mwyn trafod gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas ag arferion cyfyngol. Roedd yn galonogol nodi'r gwelliannau amlwg a wnaed yn y maes hwn ers ein harolygiad diwethaf.

Dywedwyd wrthym y byddai newidiadau pellach yn cael eu gwneud ac y byddai model newydd ar gyfer atal yn gorfforol yn cael ei gyflwyno cyn bo hir. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol a bod cymorth parhaus yn cael ei ddarparu pan gaiff y model atal yn gorfforol newydd ei roi ar waith er mwyn sicrhau y caiff y safonau presennol eu cynnal.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd cysylltiadau â cholegau, canolfannau hamdden a mentrau cymunedol lleol yn sicrhau bod y cleifion yn cael mynediad at gyrsiau a gweithgareddau, gan alluogi'r cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon yn ystod eu hamser yn yr ysbyty a phan fyddant ar absenoldeb heb oruchwyliaeth hefyd. Roedd yr ysbyty'n cydweithio â Chlwb Pêl-droed Sir Casnewydd fel rhan o fenter "amser i newid Cymru". Mae nifer o gleifion o'r ysbyty yn ymweld â'r clwb pêl-droed i gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi strwythuredig a chwarae pêl-droed. Braf iawn oedd clywed y cleifion yn siarad yn llawn brwdfrydedd am y fenter hon, ac roedd yn amlwg bod ymwneud â'r clwb yn golygu cymaint i'r cleifion ac yn eu helpu i wella.

Roedd laniardau lliw yn cael eu rhoi i'r staff yn yr ysbyty a oedd yn siarad Cymraeg, er mwyn dangos eu bod yn gallu siarad yr iaith. Roedd hyn yn galluogi'r cleifion ac ymwelwyr i gyfathrebu â'r staff yn Gymraeg. Hefyd, roedd yr ysbyty wedi arddangos hysbysfwrdd yn cynnwys dyfyniadau cadarnhaol a oedd yn berthnasol i aelodau penodol o'r staff. Roedd hyn yn dangos bod yr ysbyty'n cydnabod perfformiad y staff a'u hymroddiad i ofal y cleifion.

Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd systemau cofnodion cyfrifiadurol y cleifion wedi'u datblygu'n dda ac yn rhoi gwybodaeth o ansawdd uchel am ofal cleifion unigol. Roedd y system yn gynhwysfawr ac yn hawdd ei defnyddio.

Roedd systemau electronig da ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau, archwiliadau clinigol a llywodraethu, adnoddau dynol a systemau eraill yr ysbyty, a oedd yn helpu wrth reoli a rhedeg yr ysbyty. Roedd systemau cofnodion cyfrifiadurol y cleifion yn Llanarth Court wedi'u datblygu'n dda ac yn rhoi gwybodaeth o ansawdd da am ofal cleifion unigol. Roedd aelodau o staff o bob disgyblaeth yn ymgysylltu'n gadarnhaol iawn â'r system 'Nodiadau Gofal'.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn electronig ac roedd cyfrineiriau yn cael eu defnyddio i atal mynediad anawdurdodedig ac achosion o dor-cyfrinachedd.

Gwnaethom fwrw golwg dros sampl o gofnodion y cleifion ar bob un o'r wardiau. Roedd yn amlwg bod staff o'r timau amlddisgyblaethol yn ysgrifennu cofnodion manwl a rheolaidd a oedd yn darparu dogfen fyw am y claf a'i gofal.

Gwelsom fod y staff yn cwblhau dogfennaeth gofal ac asesiadau risg yn llawn.

Gwnaethom edrych ar y defnydd o'r Uned Gofal Dwys a gwelsom ei bod yn cael ei defnyddio'n rheolaidd, ond cawsom ein sicrhau bod ffocws clir ar ei defnyddio cyn lleied â phosibl ac ystyried opsiynau amgen llai cyfyngol.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom fwrw golwg dros ddogfennau cadw statudol pedwar claf ar bedair ward, sef Howell, Teilo, Awen ac Iddon, a gwelwyd bod y cofnodion i gyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Cod Ymarfer. Roedd dogfennau electronig ar y wardiau a chofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel a'u cadw yn swyddfa gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd y cofnodion a welsom yn drefnus, yn hawdd eu darllen ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol.

Roedd systemau archwilio cadarn ar waith ar gyfer rheoli ac archwilio dogfennau statudol ac mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn rhan o'r cyfarfodydd llywodraethu clinigol.

Caiff pob aelod o'r staff hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl fel rhan o'r rhaglen sefydlu ac mae hyfforddiant penodol ar iechyd meddwl yn rhan o fodiwlau hyfforddiant gorfodol y staff. Mae'r rheolwr Ddeddf Iechyd Meddwl hefyd yn aelod o fforwm rheolwyr Ddeddf Iechyd Meddwl Cymru Gyfan.

Roedd ffurflenni absenoldeb o dan Adran 17⁵ yn cael eu cwblhau'n briodol, roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal ar eu cyfer, ac roedd tystiolaeth bod cleifion yn

⁵Mae absenoldeb o dan Adran 17 yn caniatáu i glaf sy'n cael ei gadw adael yr ysbyty

cael eu cynnwys yn y broses. Caiff pob un o'r cleifion wybodaeth sy'n berthnasol i'w hadran pan gânt eu derbyn i'r ysbyty, a chânt eu cyflwyno i'r Rheolwr Deddf Iechyd Meddwl. Hefyd, caiff hawliau'r cleifion eu trafod â nhw bob mis. Roedd cydymffurfiaeth amlwg â phroses y Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn, er enghraifft roedd amserlenni a threfniadau gweinyddol wedi gwella'n sylweddol, ac roedd hyn i'w weld drwy'r broses archwilio.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom fwrw golwg dros gynlluniau gofal pum claf i gyd.

Gwnaethom adolygu sampl o bum ffeil gofal a gwelsom eu bod yn cael eu cynnal i safon dda ar y cyfan. Roedd y cofnodion yn gynhwysfawr, ac roedd adnoddau asesu cydnabyddedig yn cael eu defnyddio i fonitro iechyd meddyliol a chorfforol.

Roedd asesiadau o anghenion ac asesiadau risg cynhwysfawr yn cael eu cwblhau yn ystod cyfnod derbyn y claf, a oedd yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r cynllun gofal a'r strategaethau rheoli risg a oedd yn cael eu rhoi ar waith ar y wardiau. Roedd tystiolaeth glir o waith amlddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal a oedd yn adlewyrchu parthau Mesur Iechyd Meddwl (Cymru).

Roedd cynlluniau rheoli risg hefyd yn cael eu personoli ac yn nodi sbardunau posibl i'r cleifion, gan alluogi'r staff i nodi newidiadau yn eu hymddygiad. Roedd y broses o reoli ymddygiadau'r cleifion yn cael ei hadlewyrchu yn eu cynlluniau gofal a'u proffil rheoli risg, ynghyd â hyfforddiant y staff i ddefnyddio sgiliau er mwyn rheoli sefyllfaoedd anodd a'u tawelu. Roedd adroddiadau yn cael eu cyflwyno ar unrhyw achos o atal corfforol yn ystod y 24 awr flaenorol ac roeddent yn cael eu trafod yn y cyfarfod dyddiol ac yn cael eu hadolygu drwy strwythur llywodraethu clinigol yr ysbyty. Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg cynhwysfawr yng nghofnodion y cleifion ac, mewn rhai achosion, gwelsom fod cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol yn cael eu datblygu gyda thafenni crynhoi wedi'u cynnwys er mwyn nodi risg. Nodwyd hyn fel enghraifft o arfer broffesiynol dda am fod y ddogfen yn rhoi canllaw cyflym a hygyrch i'r staff ar nodi risgiau a strategaethau rheoli sy'n briodol i'r unigolyn.

Roedd yn gadarnhaol iawn gweld bod y ffeiliau gofal yn dangos yn glir fod y cleifion yn rhan o drafodaethau gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn cael eu llofnodi gan y claf. Ar y cyfan, roedd y ddogfennaeth nyrsio a welwyd yn dda iawn ac roedd asesiadau corfforol wedi'u cwblhau'n dda.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Arsylwyd ar dîm staff ymrwymedig a oedd yn deall anghenion y cleifion yn yr ysbyty yn dda.

Roedd aelodau o staff yn cael eu recriwtio mewn proses agored a theg ac roedd gwiriadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogaeth ac yn rheolaidd yn ystod cyflogaeth.

Roedd cyfraddau cwblhau hyfforddiant, goruchwyliaeth gan reolwyr ac arfarniadau blynyddol yn dda iawn.

Roedd cyfarwyddwr yr ysbyty yn defnyddio dulliau arwain ymroddedig a brwdfrydig ac yn cael ei gefnogi gan dimau amlddisgyblaethol ymroddedig. Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Roedd cyfarwyddwr yr ysbyty yn defnyddio dulliau arwain ymroddedig a brwdfrydig ac yn cael ei gefnogi gan dimau amlddisgyblaethol ymroddedig. Grŵp cydlynol o arweinwyr oedd y tîm, a gwelsom drwy gynnal cyfweiliadau â nhw eu bod yn gwerthfawrogi'r staff a'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Roedd cyfarwyddwr yr ysbyty yn rhoi rhaglen arweinyddiaeth dosturiol ar waith, ac roedd y tîm amlddisgyblaethol yn cefnogi'r rhaglen yn dda. Cynhelir diwrnodau llesiant ar gyfer y staff ac roedd nifer o fentrau staff wedi cael eu cyflwyno a oedd yn

dangos bod y tîm arwain yn gwerthfawrogi'r staff ac yn buddsoddi yn eu morâl a'u llesiant. Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion pan oeddem yn bresennol ar y wardiau. Roedd y staff yn siarad yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a'r gefnogaeth a roddir gan y penaethiaid gofal a chyfarwyddwr yr ysbyty, ond roedd dealltwriaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw o'r fenter arweinyddiaeth dosturiol yn gyfyngedig. Dylai cyfarwyddwr yr ysbyty ystyried briffio'r holl staff er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o fuddiannau'r fenter ac yn gwybod sut mae'r grŵp arwain yn cydweithio i gefnogi'r staff. Fodd bynnag, dywedodd y staff bod y cydweithio yn yr unedau yn dda iawn a bod y tîm arwain yn gefnogol iawn. Roedd yn gadarnhaol bod y staff yn yr ysbyty, drwy gydol yr arolygiad, yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith yn yr ysbyty. Mae'r polisi yn cynnig strwythur i wasanaethau yn yr ysbyty ymdrin â chwynion gan gleifion.

Roedd system electronig sefydledig ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau'n cael eu cofnodi ar y system a oedd yn cynnwys enw'r claf neu'r cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd hyn yn rhoi data priodol i'r staff nodi tueddiadau a phatrymau ymddygiad. Edrychwyd ar sampl o gofnodion cwynion yn ystod yr arolygiad i sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn cydymffurfio â'r polisi cwynion.

Roedd hierarchaeth o lofnodi adroddiadau ar ddigwyddiadau a oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi.

Roedd trefniadau ar waith i ledaenu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau i'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwnaethom adolygu'r ystadegau o ran hyfforddiant gorfodol a goruchwyliaeth glinigol ar gyfer y staff yn yr ysbyty a gwelsom fod cyfraddau cwblhau yn uchel. Roedd rhaglen hyfforddi fel bod y staff yn cael diweddariadau amserol. Roedd y cofnodion electronig yn rhoi manylion cyfraddau cwblhau cyrsiau i'r uwch-reolwyr, ynghyd â manylion cydymffurfio aelodau unigol o'r staff.

Roedd yr holl staff yn cael Cyfarfodydd Datblygiad Proffesiynol rheolaidd gyda'r uwch-reolwyr a gwelsom dystiolaeth o drafodaethau a chynlluniau ystyrlon a

pherthnasol mewn perthynas â datblygiad proffesiynol, a oedd wedi'u cofnodi yng nghofnodion y staff unigol.

Dywedodd y staff wrthym ei bod yn hawdd mynd at aelodau o dîm rheoli'r ysbyty a'u bod yn weladwy, ac yn ystod cyfweiliadau â'r staff gwnaethant ddweud wrthym fod ganddynt yr hyder i siarad â'r tîm rheoli os oedd angen iddynt godi materion neu bryderon. Yn ogystal, roedd cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal a oedd yn rhoi cyfleoedd i'r staff gael trafodaethau a rhannu gwybodaeth rhwng y timau.

Roedd strwythur goruchwylio ar waith a chadarnhaodd y staff eu bod wedi cael sesiynau goruchwylio rheolaidd. Siaradodd y staff yn gadarnhaol hefyd am y sesiynau goruchwylio grŵp ac ymarfer myfyriol.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y lefelau staffio yn ddigonol o gofio lefel y ddibyniaeth ar adeg yr arolygiad. Cawsom ein hysbysu gan gyfarwyddwr yr ysbyty fod rotâu y staff wedi'u cynllunio yn y fath fodd fel y gellid ymdopi ag unrhyw absenoldebau ar fyr rybudd, heb effeithio'n andwyol ar lefel y gwasanaeth a ddarperir.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Fel y nodwyd yn adran rheoli gwybodaeth yr adroddiad hwn, roedd yn amlwg bod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg. Cyn eu cyflogi, roedd geirdaon staff yn cael eu derbyn, roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ac roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu cadarnhau. Felly, cawsom ein sicrhau bod yr aelodau o'r staff yn cael eu recriwtio mewn proses agored a theg.

Roedd staff newydd eu penodi yn cael eu sefydlu am gyfnod o amser o dan oruchwyliaeth y penaethiaid gofal. Dangosodd y staff dystiolaeth ddogfennol i ni a gwnaethant esbonio'r systemau sefydlu sydd ar waith yn yr ysbyty.

Dywedodd y staff wrthym y gallent gwblhau hyfforddiant ychwanegol a pherthnasol pan fyddai eu rheolwr llinell yn cymeradwyo hynny, ac roedd yr hyfforddiant hwn wedi'i gofnodi ar y taenlenni hyfforddiant a welsom. Roedd yn gadarnhaol gweld bod cyfleoedd hyfforddiant allanol yn cael eu rhoi i'r staff, a oedd yn eu galluogi i ennill cymwysterau ychwanegol.

Roedd gan yr ysbyty bolisi clir i'r staff godi unrhyw bryderon ac roedd y staff y gwnaethom eu holi yn gwybod am y polisi. Roedd cymorth iechyd galwedigaethol ar gael i'r staff hefyd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a [gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Llanarth Court

- Ward/uned(au):
- Awen - Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Canolig i Fenywod
- Deri - Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Isel i Ddynion
- Teilo - Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Isel i Ddynion
- Treowen - Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Isel i Ddynion
- Howell - Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Canolig i Ddynion
- Iddon - Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Canolig i Ddynion
- Byngalo Woodlands - Ward Adsefydlu Iechyd Meddwl Agored i Ddynion.

Dyddiad arolygu: 6 - 9 Ionawr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig osod tap allanol i'r cleifion ei ddefnyddio yn yr ardal arddwriaeth.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae tapiau allanol wedi cael eu gosod yn y Ganolfan Garddwriaeth a Chreffft a chaiff rhai eu gosod yn iard ddiogel Deri.	AH	Mawrth 2020
Rhaid i'r darparwr cofrestredig wneud yn siŵr na chaiff gweithgareddau'r cleifion eu canslo oherwydd prinder staff.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Trefniadau gwyliau blynyddol a salwch y staff i gael eu rhannu â staff y wardiau. Bydd unrhyw newidiadau i weithgareddau a drefnwyd yn cael eu cyfleu'n glir i'r cleifion, a hynny'n amserol. Aildrefnu gweithgareddau lle bo modd. Bydd yr adnoddau a ddarperir yn cael eu trafod yn glir a chytunir arnynt ar y cyd â'r tîm amlddisgyblaethol yn ystod yr wythnos gynllunio.	JJ	Chwefror 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan bob ward fynediad dibynadwy i'r rhyngwyd.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Pan ymwelodd AGIC â'r safle, nid oedd y porth rhyngwyd diogel yn gweithio. Mae'r porth diogel bellach yn gweithio'n iawn. Mae Ysbyty Llanarth Court wedi cael ei ddewis i gymryd rhan yng nghynllun uwchraddio Wi-Fi Priory Healthcare. Bydd hyn yn golygu y bydd cysylltiad Wi-Fi ar gael ym mhob rhan o bob ward.	AH	Cwblhawyd Dyddiad Dechrau Mawrth 2020
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y staeniau dŵr eu glanhau'n llwyr yn yr ystafelloedd gwely gwag ar wardiau Awen a Theilo.	10. Urddas a pharch	Mae pob un o'r cyfleusterau en-suite ar ward Awen yn cael eu glanhau'n drylwyr er mwyn cael gwared ar staeniau dŵr. Bwriedir i lawr newydd gael ei osod yn ystafell wely 13 ar ward Teilo.	AH	Mawrth 2020
Dylid ailaddurno'r ystafell ymweld i blant er mwyn ei gwneud yn fwy croesawgar i blant sy'n ymweld.		Mae'r Ganolfan Ymweld i Blant yn cael ei haddurno. Mae amserlen ar waith i osod llawr newydd	AH	Mawrth 2020
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y wybodaeth a gaiff ei harddangos am AGIC yn gywir.	9. Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion	Mae poster gwybodaeth newydd sy'n cynnwys y manylion cyfredol bellach yn cael ei arddangos	TB	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Raid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff sbwriel ei godi yn yr Uned Gofal Dwys ar ward Awen a bod yr ardal hon yn cael ei glanhau'n drylwyr er mwyn cael gwared ar yr arogl wrin.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch 12. Yr amgylchedd 4. Trefniadau Cynllunio at Argyfyngau	Mae'r sbwriel wedi cael ei godi ac mae'r ardal wedi cael ei glanhau'n drylwyr.	AH	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod peiriannau glanweithydd dwylo ar gael i'r cleifion ac ymwelwyr eu defnyddio	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Mae pob peiriant glanweithydd dwylo wedi cael ei ail-lenwi. Bydd y gwiriadau ar gyfer ail-lenwi'r peiriannau glanweithydd dwylo yn cael eu cynnal bob wythnos yn hytrach na bob pythefnos.	AH	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff peiriant glanweithydd dwylo newydd ei osod yn yr ystafell ymolchi gymunedol ar ward Iddon.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Mae uned dosbarthu sebon newydd wedi cael ei gosod	AH	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff drych newydd ei osod yn lle'r un sydd wedi cracio ar ward Iddon.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Mae drych newydd wedi cael ei osod yn yr ystafell ymolchi ar ward Iddon.	AH	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad oes ôl tâp gludiog ar y wardiau.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Bydd y staff cadw tŷ a staff y wardiau yn gyfrifol am gael gwared ar yr ôl tâp gludiog. Caiff hyn ei fonitro bob wythnos wrth i'r Uwch Dîm Rheoli fynd o gwmpas yn bwrw golwg dros yr amgylchedd.	AH	Mawrth 2020
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y diffygion yn yr ardal gweini bwyd yn ystafell fwyta ward Awen yn cael eu hatgyweirio.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae amserlen ar waith i adnewyddu'r ardal gweini bwyd	AH	Mawrth 2020
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y wybodaeth am ddyddiadau pigiaid depo ei dileu oddi ar y bwrdd gwyn ar ward Awen.	15. Rheoli meddyginiaeth au	Mae'r wybodaeth a nodwyd wedi cael ei dileu	TB	Chwefror 2020
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y rhwymynnau a ddifrodwyd gan ddŵr eu symud	15. Rheoli meddyginiaeth au	Mae'r rhwymynnau a ddifrodwyd gan ddŵr wedi cael eu symud oddi yno ac	TB	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
oddi ar y ward ac y caiff rhwymynnau newydd eu rhoi yn eu lle.		mae rhai newydd wedi cael eu rhoi yn eu lle		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl hen gofnodion meddygol o ysbytai blaenorol eu tynnu allan o'r ffeiliau meddyginiaeth.	15. Rheoli meddyginiaeth au	Mae'r hen ffeiliau meddygol wedi cael eu tynnu allan	TB	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff oergelloedd a droriau â meddyginiaeth ynddynt eu cloi.	15. Rheoli meddyginiaeth au	Mae arwyddion ychwanegol er mwyn annog y staff i gloi'r droriau a'r cypyrddau wedi cael eu harddangos	TB	Cwblhawyd
Mae angen i'r ysbyty drefnu system fwy cadarn gyda'r fferyllfa ar gyfer archebu a danfon meddyginiaeth frys.	15. Rheoli meddyginiaeth au	Mae fferyllfa leol newydd wedi cael ei dewis i ddarparu meddyginiaeth frys. Caiff y broses newydd ei diwygio	TB	Cwblhawyd

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Ross Morris

Teitl swydd: Cyfarwyddwr yr Ysbyty

Dyddiad:19.02.2020